Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol a gwyliau crefyddol 2023

# Canllawiau ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol a gwyliau crefyddol 2022

**Cynulleidfa**
Yr holl weithlu addysgu, llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu.

**Camau i'w cymryd**
Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0604400

E-bost: CCD.SAS@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**
Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

https://llyw.cymru/presenoldeb-yn-yr-ysgol-gwyliau-crefyddol-canllawiau

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

ISBN digidol 978-1-80535-295-2
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2021
WG 46787

# Cynnwys

**Canllawiau presenoldeb Llywodraeth Cymru** **2**
**Diwrnodau a neilltuir ar gyfer ymlyniad crefyddol 2023** **3**
**Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol** **7**
**Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru** **10**
**Cyngor arferion gorau Cymdeithas CYSAGau Cymru** **11**

## Canllawiau presenoldeb Llywodraeth Cymru

Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllawiau cyffredinol i helpu penaethiaid benderfynu a ddylid awdurdodi absenoldeb i ddysgwyr ar gyfer ymlyniad crefyddol.

Rhieni sy’n gyfrifol am wneud yn siŵr bod eu plant oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas amser llawn. Dim ond penaethiaid, nid y rhieni, sy’n cael awdurdodi absenoldeb. Rhaid i ysgolion ystyried a yw’r rheswm dros yr absenoldeb yn rhesymol cyn ei awdurdodi.

Yng Nghymru, mae patrwm y flwyddyn ysgol yn cydnabod y rhan fwyaf o wyliau a diwrnodau sanctaidd yn nhraddodiad Cristnogol y Gorllewin. Fodd bynnag, yn aml, bydd diwrnodau pwysig yng nghalendrau traddodiadau ac enwadau crefyddol eraill, yn digwydd yn ystod tymor yr ysgol, gan gynnwys ar ddiwrnodau ysgol.

Gweler canllawiau Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb, arferion cofrestru a chodau.

Mae’r cyngor canlynol yn berthnasol i absenoldebau ar gyfer yr hyn a elwir yn ‘ymlyniad crefyddol’:

Disgrifiad cryno: Ymlyniad crefyddol
Ystyr ystadegol: Absenoldeb awdurdodedig
Ystyr gwirioneddol: Allan am sesiwn gyfan
Ystyr cyfreithiol: Absennol
Defnydd: Absenoldeb ar gyfer cymryd rhan mewn diwrnod a neilltuir ar gyfer ymlyniad crefyddol yn ymwneud â’r corff crefyddol y mae’r rhieni yn perthyn iddo, gan gynnwys gwyliau crefyddol. **Dylid annog rhieni [neu ofalwyr] i roi rhybudd ymlaen llaw**

Dehonglir hyn i olygu bod yn rhaid i’r ysgol awdurdodi’r absenoldeb os yw sefydliad crefyddol y rhieni neu'r gofalwyr yn pennu’r diwrnod fel gŵyl grefyddol.

Os nad yw’r corff crefyddol wedi neilltuo’r diwrnod fel gwyl grefyddol, nid yw’n ofynnol i’r ysgol gymeradwyo’r absenoldeb. Ni ddylid defnyddio Cod R i farcio gwyliau ychwanegol na diwrnodau i ffwrdd sy’n gysylltiedig â gwyliau crefyddol ond nad yw wedi’u neilltuo’n benodol ar gyfer ‘ymlyniad crefyddol’ gan y corff crefyddol.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

## Diwrnodau a neilltuir ar gyfer ymlyniad crefyddol 2023

*Mae'r tabl canlynol yn cynnwys dyddiadau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer ymlyniad crefyddol yn 2023* ***yn unig****, sy'n dod ar ddiwrnod ysgol cyffredin (h.y. o ddydd Llun i ddydd Gwener gan gynnwys gwyliau ysgol*). Nid yw dyddiadau eraill a gydnabuwyd fel dyddiadau a neilltuir ar gyfer ymlyniad crefyddol yn 2023, sy'n digwydd dros benwythnos, heb eu cynnwys yn y tabl isod ond maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1

| | **Tymor y gwanwyn 2023** | **Tymor yr haf 2023** | **Tymor yr hydref 2023** |
|---|---|---|---|
| **Baha'i** | **Naw Rùz** – 21/03/2023<br><br>**Diwrnod cyntaf Ridvan** – 21/04/2023 | **Deuddegfed/Diwrnod olaf Ridvan** – 02/05/2023<br><br>**Cyhoeddi'r Bάb** – 24/05/2023<br><br>**Merthyrdod y Bάb** – 10/07/2023 | **Dau Ddiwrnod Sanctaidd (Genedigaeth Baha'u'llah a y Bάb)** – 16/10/2023 & 17/10/2023 |
| **Bwdhaeth** | **Losar (Y Flwyddyn Newydd Tibetaidd)** – 21/02/2023<br><br>**Vesak** – 05/05/2023 | **Visakha Puja / Diwrnod y Bwda** – 05/05/2023<br><br>**Asalha Puja** – 03/07/2023 | **Loy Krathong** – 28/11/2023<br><br>**Diwrnod Bodhi** – 08/12/2023 |
| **Cristnogaeth** | **y Grawys gorllewinol** – 22/02/2023 –<br><br>**Dydd Gwener y Groglith** – 07/04/2023 | | **Diwrnod Nadolig Gorllewinol** – 25/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **y Grawys Uniongred** – 27/02/2023 – 07/04/2023<br><br>**Dydd Gwener y Groglith (Uniongred)** – 07/04/2023 | | |
| **Hindŵaeth** | **Vasant Panchami** – 26/01/2023<br><br>**Holi** – 08/03/2023<br><br>**Ram Navami** – 30/03/2023<br><br>**Hunuman Jayanti** – 06/04/2023 | | **Janmashtami 07/09/2023**<br><br>**Ganesh Chaturthi / Vinayaka Chaturthhi** – 19/09/2023<br><br>**Navaratri** – 15/10/2023 – 24/10/2023<br><br>**Durga Puja –** 20/10/2023 – 24/10/2023<br>**Blwyddyn Newydd Vikram** – 13/11/2023 |
| **Islam / Mwslimiaid** | | ***Ramadan**** *- 22/03/2023 – 21/04/2023*<br><br>**Eid-al-Adha** – 28/06/2023<br><br>**Ashura** – 28/07/2023<br><br>**Muharram/ Hijra/ Blwyddyn Newydd Dda** – 18/07/2023 | **Mawlid an Nabi/ Eid Milad un-Nabi/ Pen-blwydd y Proffwyd** – 26/09/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Jainiaeth** | **Mahavir Jayanti** – 04/04/2023 | | **Paryushana Parvarambha** – 20/09/2023 – 27/09/2023 |
| **Iddewiaeth** | **Purim** – 06/03/2023 – 07/03/2023<br><br>**Pesach / Gwŷl y Bara Croyw** – 05/04/2023 – 13/04/2023 | **Shavuot** – 25/05/2023 - 27/05/2023<br><br>**Tish'a'B'av** – 27/07/2023 | **Rosh Hashanah** – 15/09/2023 – 17/09/2023<br>**Yom Kippur –** 24/09/2023<br><br>**Sukkot** – 29/09/2023 – 06/10/2023<br><br>**Hanukkah** – 07/12/2023 – 15/12/2023<br><br>**Chanukah**<br>(mân wyl) |
| **Sikhiaeth** | **Parkashpurb of Sri Guru Gobind Singh ji** – 05/01/2023<br><br>**Vaisakhi / Khalsa Divas** – 14/04/2023<br><br>**Holi** – 08/03/2023<br><br>**Hola Mohalla** – 08/03/2023 – 10/03/2023 | **Shaheedipurb Sri Guru Arjan Dev Ji** – 16/06/2023 | **Parkashpurb Coyntaf Sri Guru Granth Sahib** – 01/09/2023<br><br>**Merthyrdod Sri Guru Tegh Bahadur** – 24/11/2023<br><br>**Guru Nanak Parkash Divas** – 27/11/2023 |

## Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol

Mae nifer o galendrau gwahanol yn cael eu defnyddio ledled y byd; ac maent yn perthyn i'r tri chategori canlynol fel arfer:

- Mae'r calendr **solar** yn ymwneud â'r haul, neu'n fwy penodol, taith y ddaear o amgylch yr haul. Calendr solar yw'r calendr Gregoraidd, sef y calendr a ddefnyddir amlaf yn y byd heddiw. Mae'n seiliedig ar flwyddyn gyffredin 365 diwrnod[1] a rennir yn ddeuddeg mis o wahanol hyd.

- Mae calendrau **lleuadol[2]** yn seiliedig ar daith y lleuad o amgylch y ddaear, ac fe'u defnyddir yn bennaf at ddibenion crefyddol neu ddiwylliannol.

- Mae calendrau **lloerheulol** yn cyfuno'r ddau fath o galendr ac yn galendrau solar gyda'r dyddiad yn nodi cyfnod y lleuad. Fe'u defnyddir at ddibenion crefyddol a diwylliannol.

Am y rheswm hwn, efallai y bydd diwrnodau a neilltuir ar gyfer ymlyniad crefyddol ar gyfer rhai crefyddau'n amrywio'n ddaearyddol neu o flwyddyn i flwyddyn.

[1]Fodd bynnag, mae pob pedair blynedd yn flwyddyn naid, pan ychwanegir un diwrnod ychwanegol – neu ddiwrnod rhyngweithredol, ar 29 Chwefror, gan wneud y flwyddyn naid yn y calendr Gregoraidd yn flwyddyn 366 diwrnod.
[2]Gall y dyddiadau newid gan y gallai mis lleuadol fod yn 29 neu'n 30 diwrnod.

Dyddiadau sydd wedi eu neilltuo ar gyfer ymlyniad crefyddol sy'n digwydd yn ystod penwythnos yn 2023:

| | **Tymor y gwanwyn 2023** | **Tymor yr haf 2023** | **Tymor yr hydref 2023** |
|---|---|---|---|
| **Baha'i** | **Nawfed diwrnod Ridvan** – 29/04/2023 | **Merthyrdod y Bάb** – 09/07/2023 | **Dyrchafael Abdu'l-Bahά** - 27/11/2023 |
| **Bwdhaeth** | **Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd** – 22/01/2023 | | |
| **Cristnogaeth** | **Dydd Nadolig Uniongred** – 07/01/2023 | | |
| **Hindŵaeth** | **Maha Shivarati** – 18/02/2023 | **Krishna Janmashtami –** 06/08/2023 | **Navaratri** – 15/10/2023 – 24/10/2023<br><br>**Diwali** – 12/11/2023 |
| **Islam / Mwslimiaid** | | ***Ramadan**** *– 22/03/2023 – 21/04/2023* | |
| **Jainiaeth** | | | **Paryushana Parvarambha** – 23/09/2022 – 31/09/2022<br><br>**Blwyddyn Newydd Jain** – 07/11/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iddewiaeth** | **Pesach / Gwŷl y Bara Croyw** – 05/04/2023 – 13/04/2023 | **Shavuot** – 25/05/2023 - 27/05/2023 | **Rosh Hashanah** – 15/09/2023 – 17/09/2023<br><br>**Yom Kippur –** 24/09/2023<br><br>**Sukkot** – 29/09/2023 – 06/10/2023<br><br>**Shemni Atzeret** - 07/10/2023<br><br>**Simchat Torah –** 07/10/2023<br><br>**Hanukkah** – 07/12/2023 – 15/12/2023 |
| **Sikhiaeth** | | | **Bandi Chhor Divas / Diwali** – 12/11/2023 |

## Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru

Mae Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru yn aelodau o Gymdeithas CYSAGau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyngor a ganlyn gan Gymdeithas CYSAGau Cymru:

- Dylid trin cais gan rieni i gael absenoldeb awdurdodedig i'w plentyn ar gyfer ymlyniad crefyddol gyda sensitifrwydd, gan ystyried unrhyw gais o'r fath mewn modd gofalus a theg.
- Dylid ond awdurdodi absenoldeb ar gyfer dyddiad sydd wedi'i neilltuo'n arbennig gan y corff crefyddol, fel y manylir uchod.
- Os nad oes dyddiad wedi'i neilltuo'n benodol gan y corff crefyddol, awgrymir bod y pennaeth yn ymholi a yw'r dysgwr/wyr yn gallu cyflawni eu ymlyniad crefyddol y tu allan i oriau ysgol
- Os bydd gŵyl yn digwydd ar benwythnos neu yn ystod gwyliau ysgol, ni ddylid awdurdodi absenoldeb ar ddiwrnod ysgol ar gyfer yr ŵyl honno.
- Yn yr un modd, ni ddylid awdurdodi absenoldeb ar ddiwrnod ysgol naill ai'n union cyn nac ar ôl y dyddiad sydd wedi ei neilltuo'n benodol gan y corff crefyddol perthnasol

Mae'n bwysig nodi bod defodau o fewn rhai traddodiadau crefyddol yn amrywio rhwng y gwahanol enwadau a chymunedau. Er y gallai un gymuned beidio â rhoi cymaint o bwyslais ar ŵyl benodol, fel nad oes angen gwneud cais am absenoldeb o'r ysgol, gallai'r un ŵyl fod o bwys mawr i gymuned arall a bod yn rhaid ei dathlu fel dydd sanctaidd a gwneud cais am absenoldeb awdurdodedig o'r ysgol. Hefyd mae lefel yr ymlyniad yn amrywio rhwng teuluoedd o fewn yr un traddodiad neu gymuned grefyddol, ac mae'n bosibl y byddai'n well gan rai plant, er eu bod yn byw o fewn cymuned ffydd benodol, fynd i'r ysgol ar ddiwrnod sy'n ŵyl grefyddol. Felly, er bod yn rhaid i benaethiaid sicrhau bod ceisiadau'n ddilys ac yn rhesymol, fe'u cynghorir i beidio ag amau cais oherwydd yr uchod.

Ar ben hynny, o ran natur y misoedd Islamaidd, sy'n dibynnu ar y lloer, a'r awdurdodau gwahanol y mae Mwslimiaid yn dibynnu arnynt ar gyfer cyhoeddi dechrau a diwedd Ramadhan, mae'n golygu bod potensial i ddysgwyr Mwslimaidd yn yr un ysgol i ddechrau/gorffen y mis ymprydio a dathlu Eid y ddiwrnod cyn neu ddiwrnod ar ôl ei gilydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall dysgwyr Mwslimaidd yn yr un ysgol hefyd ofyn am absenoldeb ar gyfer y diwrnod Eid ar ddyddiadau gwahanol.

Dylai penaethiaid gofio hefyd fod natur gweld y lleuad yn golygu ei bod yn bosibl na fydd teuluoedd Mwslimaidd yn gwybod tan y noson gynt bod Eid y diwrnod canlynol. Fel y cyfryw, mae'n bosibl y gall rhieni a gofalwyr roi rhybudd ymlaen llaw i'r ysgol o fras ddyddiadau Ramadhan (yn benodol), ond maent yn pwysleisio y gall fod

gwahaniaeth o un diwrnod y naill ochr i'r dyddiadau sy'n ymddangos yn y canllawiau hyn.

## Cyngor arferion gorau Cymdeithas CYSAGau Cymru

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru o’r farn bod yr arferion canlynol yn arferion da ar gyfer ysgolion:

- Annog rhieni a gofalwyr i roi cymaint o rybudd â phosibl i'r ysgol am absenoldeb arfaethedig a bod yn barod i drafod gyda'r athrawon sut y bydd eu plentyn/plant yn dal i fyny â'r gwaith a gollwyd.
- Dylid gwneud darpariaeth briodol ar gyfer anghenion plant sy’n cadw at ddefodau crefyddol, ac a fydd yn cyflawni defodau penodol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, gellid neilltuo ystafell ar gyfer gweddïo, neu le tawel. Gallai fod angen i rai plant ddefnyddio cyfleuster ymolchi preifat, a byddai cael cyfleusterau felly mewn ysgol yn golygu y byddai plant yn gallu aros ar safle’r ysgol heb fod angen bod yn absennol o’r ysgol yn rheolaidd
- Dylid creu cysylltiadau â’r cymunedau crefyddol lleol a chynnal deialog gyda nhw drwy’r flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau sydd o fudd i'r ddwy ochr â chymunedau ffydd lleol a fydd yn hyrwyddo ac yn agor cyfleoedd am brofiadau dysgu o ansawdd da i'r plant ac yn cynorthwyo penaethiaid wrth benderfynu a ydynt am ganiatáu absenoldeb awdurdodedig ar gyfer ymlyniad crefyddol i ddysgwyr yn eu hysgol
- Bod yn ymwybodol o'r cymunedau crefyddol sy'n cael eu cynrychioli yn eu hardal a chymryd camau rhesymol i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, nad yw digwyddiadau yn nyddiadur yr ysgol yn gwrthdaro â diwrnodau o bwysigrwydd crefyddol sylweddol i'w dysgwyr a'u teuluoedd.

**Gwefannau defnyddiol**:

www.when-is.com

https://www.chabad.org/holidays/default_cdo/jewish/holidays.htm

Calendr Rhyng-ffydd
http://www.interfaith-calendar.org/

Atodiad - Gwyliau crefyddol mewn trefn gronolegol

| **Dyddiad** (trefn gronolegol) | **Digwyddiad** | **Crefydd** | **Tymor Academaidd 2020-21** |
|---|---|---|---|
| **Ionawr** | | | |
| 07/01/2023 | Diwrnod Nadolig Uniongred – | Cristnogaeth | Tymor y gwanwyn |
| 22/01/2023 | Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd | Bwdhaeth | Tymor y gwanwyn |
| 26/01/2023 | Vasant Panchami | Hindŵaeth | Tymor y gwanwyn |
| | | | |
| **Chwefror** | | | |
| 18/02/2023 | Maha Shivarati | Hindŵaeth | Tymor y gwanwyn |
| 21/02/2023 | Losar (Y Flwyddyn Newydd Tibetaidd) | Bwdhaeth | Tymor y gwanwyn |
| 22/02/2023 – 07/04/2023 | y Grawys gorllewinol y Grawys uniongred<br>Dydd Gwener y Groglith (07/04) | Cristnogaeth | Tymor y gwanwyn |
| 27/02/2023 – 07/04/2023 | y Grawys uniongred | Cristnogaeth | Tymor y gwanwyn |
| | | | |
| **Mawrth** | | | |
| 06/03/2023 – 07/03/2023 | Purim | Iddewiaeth | Tymor y gwanwyn |
| 08/03/2023 | Holi | Hindŵaeth/ Sikh | Tymor y gwanwyn |
| 21/03/2023 | Naw Rùz | Baha’i | Tymor y gwanwyn |
| 22/03/2023 – 21/04/2023 | Ramadan | Islam / Mwslimiaid | Tymor y gwanwyn |
| 30/03/2023 | Ram Navami | Hindŵaeth | Tymor y gwanwyn |
| | | | |
| **Ebrill** | | | |
| 04/04/2023 | Mahavir Jayanti | Jainiaeth | Tymor y gwanwyn |
| 05/04/2023 – 13/04/2023 | Pesach / Gwyl y Bara Croyw | Iddewiaeth | Tymor y gwanwyn |
| 06/04/2023 | Hunuman Jayanti | Hindŵaeth | Tymor y gwanwyn |
| 07/04/2023 | Dydd Gwener y Groglith (Uniongred) | Cristnogaeth | Tymor y gwanwyn |
| 14/04/2023 | Vaisakhi / Khalsa Divas | Skihaeth | Tymor y gwanwyn |
| 21/04/2023 | Diwrnod cyntaf Ridvan | Baha’i | Tymor y gwanwyn |
| 29/04/2023 | Nawfed diwrnod Ridvan | Baha’i | Tymor yr haf |
| | | | |
| **Mai** | | | |
| 02/05/2023 | Deuddegfed/Diwrnod olaf Ridvan | Baha’i | Tymor yr haf |
| 05/05/2023 | Visakha Puja / Diwrnod y Bwda | Bwdhaeth | Tymor yr haf |
| 24/05/2022 | Cyhoeddi'r Bάb | Baha’i | Tymor yr haf |
| 25/05/2023 – 27/05/2023 | Shavuot | Iddewiaeth | Tymor yr haf |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mehefin** | | | |
| 28/06/2023 | Eid-al-Adha | Islam / Mwslimiaid | Tymor yr haf |
| | | | |
| **Gorffennaf** | | | |
| 10/07/2023 | Merthyrdod y Báb | Baha'i | Tymor yr haf |
| 18/07/2023 | Muharram / Hijra / Y Flwyddyn Newydd Islamaidd | Islam/ Mwslimaidd | Tymor yr haf |
| 27/07/2023 | Tish'a'B'av | Iddewiaeth | Tymor yr haf |
| 28/07/2023 | Ashura | Islam / Mwslimiaid | Tymor yr haf |
| | | | |
| **Awst** | | | |
| | | | |
| **Medi** | | | |
| 07/09/2023 | Janmashtami | Hindŵaeth | Tymor yr hydref |
| 25/09/2022 – 27/09/2022 | Rosh Hashanah | Iddewiaeth | Tymor yr hydref |
| 19/09/2023 | Ganesh Chaturthi / Vinayaka Chaturthi | Hindŵaeth | Tymor yr hydref |
| 20/09/2023 – 27/09/2023 | Paryushana Parvarambha | Jainiaeth | Tymor yr hydref |
| 24/09/2023 | Yom Kippur | Iddewiaeth | Tymor yr hydref |
| 26/09/2023 | Mawlid an Nabi / Eid Milad un-Nabi / Pen-blwydd y Proffwyd | Islam / Mwslimiaid | Tymor yr hydref |
| 29/09/2023 – 06/10/2023 | Sukkot | Iddewiaeth | Tymor yr hydref |
| | | | |
| **Hydref** | | | |
| 07/10/2023 | Shemni Atzeret | Iddewiaeth | Tymor yr hydref |
| 07/10/2023 | Simchat Torah | Iddewiaeth | Tymor yr hydref |
| 15/10/2023 – 24/10/2023 | Navaratri | Hindŵaeth | Tymor yr hydref |
| 16/10/2023 & 17/10/2023 | Dau Ddiwrnod Sanctaidd (Genedigaeth Baha'u'llah a y Bάb) – 1620/10/2023 & 217/10/2023 | Baha'i | Tymor yr hydref |
| 20/10/2023 | Genedigaeth y Báb | Baha'i | Tymor yr hydref |
| 20/10/2023 – 24/10/2023 | Durga Puja | Hindŵaeth | Tymor yr hydref |
| 21/10/2023 | Genedigaeth Baha'u'llah | Baha'i | Tymor yr hydref |
| | | | |
| **Tachwedd** | | | |
| 07/11/2023 | Blwyddyn Newydd Jain | Jainiaeth | Tymor yr hydref |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12/11/2023 | Diwali | Sikh/ Hindŵaeth/ Jainiaeth | Tymor yr hydref |
| 13/11/2023 | Blwyddyn Newydd Vikram | Hindŵaeth | Tymor yr hydref |
| 26/11/2023 | Diwrnod y Cyfamod | Baha'i | Tymor yr hydref |
| 26/11/2023 | Dyrchafael Abdu'l-Bahά | Baha'i | Tymor yr hydref |
| 27/11/2023 | Guru Nanak | Sikhiaeth | Tymor yr hydref |
| 28/11/2023 | Loy Krathong | Bwdhaeth | Tymor yr hydref |
| | | | |
| **Rhagfyr** | | | |
| 08/12/2023 | Dydd Bodhi | Bwdhaeth | Tymor yr hydref |
| 25/12/2023 | Diwrnod Nadolig Gorllewinol | Cristnogaeth | Tymor yr hydref |